Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gwasanaethau Plant a Theuluoedd / Gwasanaethau Darparwyr |
| **SWYDD:** | Rheolwr Cymorth Lleoliad |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR10 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Rheolwr Tîm – Maethu Cyffredinol |

**DIBEN Y SWYDD:**

Arwain a rheoli'r Tîm Cymorth Lleoliad, gan ddarparu goruchwyliaeth weithredol i sicrhau bod ymyriadau o ansawdd uchel, ymatebol, ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn cael eu darparu i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, eu gofalwyr, a'u teuluoedd. Bydd y rheolwr yn sicrhau bod y tîm yn cynorthwyo sefydlogrwydd lleoliad ac yn cyfrannu at well canlyniadau i blant a theuluoedd maeth.

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Darparu rheolaeth linell effeithiol i dîm amlddisgyblaethol o Weithwyr Cymorth Lleoliad gan sicrhau eglurder rolau, perfformiad uchel, ac atebolrwydd.
- Goruchwylio'r gwaith o gydlynu a chyflwyno pecynnau cymorth wedi'u targedu i leoliadau maeth.
- Monitor a gwerthuso ansawdd ac effaith ymyriadau a ddarperir gan y tîm, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag anghenion asesedig a chynllunio dyfodol parhaol.
- Gweithio'n agos gyda thimau gwaith cymdeithasol, gwasanaethau preswyl, timau maethu, a phartneriaid mewnol ac allanol eraill i sicrhau cymorth cydgysylltiedig ac amserol i blant a gofalwyr.
- Goruchwylio a chymryd rhan mewn trefniadau ar alwad i sicrhau cymorth y tu allan i oriau i deuluoedd maeth a ddyrennir i'r gwasanaeth.
- Gweithio'n hyblyg a bod ar gael i weithio rhai penwythnosau er mwyn diwallu anghenion y gwasanaeth.
- Arwain goruchwyliaeth achosion reolaidd a sesiynau ymarfer myfyriol i hyrwyddo datblygiad proffesiynol, gwneud penderfyniadau, a rheoli risg effeithiol.
- Cadeirio a chyfrannu at gyfarfodydd gweithwyr proffesiynol, cynllunio lleoliadau, cyfarfodydd tarfu, a chyfarfodydd rhwydwaith teuluol fel y bo'n briodol.
- Sicrhau bod systemau cadarn ar waith ar gyfer cofnodi achosion, casglu data, a monitro perfformiad, gan gyfrannu at gynllunio strategol ac adrodd sicrhau ansawdd.
- Darparu goruchwyliaeth reolaethol i sicrhau bod pryderon diogelu yn cael eu nodi'n briodol, eu huwchgyfeirio, ac y gweithredir arnynt yn unol â pholisïau a gweithdrefnau.

- Nodi anghenion hyfforddi o fewn y tîm a chefnogi datblygiad y gweithlu, gan sicrhau bod y tîm yn cynnal y wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth berthnasol, modelau ymarfer (e.e., dulliau sy'n ystyriol o drawma, PACE) ac ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu ac adolygu polisïau, gweithdrefnau, a chanllawiau ymarfer sy'n gysylltiedig â chymorth lleoliad ac ailuno.
- Cyfrannu at gynllunio strategol, paratoi ar gyfer arolygiadau, a gweithgareddau datblygu gwasanaeth fel sy'n ofynnol gan y Rheolwr Grŵp a'r Pennaeth Gwasanaeth.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**

Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**

Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**

Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**

Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Rheolwr Cymorth Lleoliad

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Safon dda o addysg sy'n cyfateb i FfCCh (NVQ) Lefel 4 mewn disgyblaeth briodol neu'n gallu dangos cymhwysedd drwy brofiad.<br><br>• Yn meddu ar gymhwyster rheoli Lefel 5 neu'n barod i ymgymryd â hyn a/neu brofiad rheoli blaenorol perthnasol ac amlwg. | Ydy<br><br>Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o weithio mewn Gwasanaethau Plant neu sefydliadau partner.<br><br>• Gwybodaeth am ddeddfwriaeth gofal plant berthnasol mewn perthynas â gwasanaethau plant.<br><br>• Profiad o weithio gyda'r plant a'r teuluoedd yn uniongyrchol, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed ac y mae angen cymorth arnynt.<br><br>• Profiad goruchwylio/rheoli. | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Sgiliau gwych wrth gyfathrebu (ar lafar ac yn ysgrifenedig), a rhyngbersonol gyda'r gallu i ymdrin yn effeithiol â chydweithwyr, y cyhoedd, plant a phobl ifanc.<br><br>• Gallu arwain, cymell a chynorthwyo eraill yn ogystal â gweithio'n effeithiol gyda thîm i sicrhau bod safonau gwasanaeth rhagorol yn cael eu darparu.<br>• Sgiliau TG hyfedr.<br><br>• Ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac ymrwymiad i amddiffyn a diogelu plant a phobl ifanc. | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Gallu cadw at egwyddorion diogelu data a sicrhau cyfrinachedd ym mhob mater. | Ydy | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol Parhad** | • Gallu cynllunio a phennu safonau gwasanaeth cadarn a monitro ac adolygu eu heffeithiolrwydd. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| | • Gallu monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth gwasanaethau. | Ydy | |
| | • Gallu cynllunio, monitro a gwerthuso sesiynau cyswllt. | Ydy<br>Ydy | |
| | • Gallu gweithio'n hyblyg o fewn amserlenni a therfynau amser tynn yn ogystal â mynd i'r afael â gofynion newidiol a blaenoriaethau sy'n gwrthdaro. | | |
| | • Dealltwriaeth gref o bwysigrwydd cyswllt o ansawdd i deuluoedd ac ymrwymiad i weithio er mwyn cyflawni hyn. | Ydy | |
| | • Gallu ffurfio a chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol a chyda gweithwyr proffesiynol yn ogystal â phlant a'u teuluoedd. | Ydy | |
| | • Sgiliau da wrth asesu, asesu risg, cynllunio a chadw cofnodion. | | |
| | • Trwydded yrru gyda mynediad i gerbyd. | Ydy | |
| | • Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |